

Annwyl Riant / Warchodwr,

GWAITH CARTREF

Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch oedd wedi ymateb i'n holiadur gwaith cartref. Rydym wedi pori trwy'r ymatebion ac wedi bwydo eich adborth a'ch syniadau i ddatblygu system gwaith cartref newydd. Yn symud ymlaen, rydym wedi penderfynu newid pethau ychydig a rhoi bwydlen o weithgareddau ar ddechrau bob hanner tymor, yn hytrach na gosod tasgau bob wythnos. Gall y disgyblion barhau i gwblhau'r gwaith yn wythnosol os ydynt yn dymuno, neu yn fwy achlysurol os ydy hynny'n haws. Rydym ni'n sylweddoli, o'r adborth, bod llawer ohonoch yn ei ffeindio'n anodd i gwblhau'r gwaith bob penwythnos.

Gyda gwaith cartref yn gyffredinol, y pethau rydym yn eu hannog fwyaf yw **darllen** a **sillafu**. Mae'n hanfodol i ddarllen gyda'ch plentyn yn **gyson** a byddwn yn darparu rhestr o eiriau sillafu ar ddechrau bob hanner tymor, y gall y disgyblion eu hadolygu a'u hymarfer yn gyson.

Bydd bwydlen o weithgareddau ar gyfer yr hanner tymor yn cael ei darparu ar ddydd Gwener cyntaf bob hanner tymor a gall y disgyblion gwblhau'r gwaith yn eu hamser eu hunain, dros gyfnod yr hanner tymor.

Cyflwyno'r gwaith i athro / athrawes eich plentyn:

Mae rhai ohonoch wedi nodi eich bod eisiau gwneud y gwaith cartref mewn llyfr gwaith felly rydyn ni'n hapus i'w dderbyn mewn llyfr, os ydych yn dymuno. Os ydych chi am wneud hynny, gofynnwn i'r disgyblion ddychwelyd y llyfr i'r ysgol ar ddydd Llun neu ddydd Mawrth os gwelwch yn dda. Byddwn yn danfon unrhyw lyfrau ac yn amnewid unrhyw lyfrau darllen rydyn ni'n eu derbyn yn ôl erbyn y dydd Gwener canlynol.

Bydd yr un system yn parhau, o ran danfon y gwaith at yr athro yn electronig, sef:

Meithrin hyd at flwyddyn 4:

Byddwn yn parhau i dderbyn y gwaith ar Seesaw.

Blynyddoedd 5 a 6:


E-bostio trwy Hwb.

*Er bod rhai ohonoch wedi sôn bod systemau gwahanol i gyflwyno'r gwaith yn ddryslyd, y rheswm rydym wedi penderfynu gofyn wrth flynyddoedd 5 a 6 i e-bostio eu gwaith at yr athro / athrawes yw i'w hannog i fod yn fwy annibynnol a'u paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd.

Bydd y fwydlen gwaith cartref a'r geiriau sillafu yn cael eu rhoi ar wefan gwaith cartref y dosbarth ar ddechrau bob hanner tymor. Mae dolen i bob gwefan gwaith cartref ar wefan yr ysgol. Gosodir gwaith cartref i atgyfnerthu'r dysgu ac i ddatblygu dysgwyr annibynnol. **Rydym yn annog pob disgybl i gyflawni'r tasgau.**

Diolch, unwaith eto, am eich adborth a gobeithiwn yn fawr y bydd y system newydd yn addas ar gyfer anghenion pawb ac y bydd yn gwneud pethau'n haws i'n disgyblion.

Diolch yn fawr, Miss Passmore



Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henlllys,
Cwmbrân,
Torfaen,
NP44 4HB.

Ffôn/Telephone: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
Twitter : @YGCwmbran
Schoop: 10319

Pennaeth/Headteacher: Miss C Evans

Dear Parent / Guardian,

HOMEWORK:

Thank you to those who completed our homework questionnaire. We've been through your responses and we've used your ideas and feedback to help us develop a new homework system. Moving forward, we have decided to change things a little by providing a menu of different activities at the beginning of each half term, instead of setting homework every week. The pupils can still complete the homework each week if they wish or they can complete it in their own time over several weeks. We've noticed, from the responses, that many of you find it difficult to complete the homework every weekend.

With homework in general, the things we encourage the most are **reading** and **spelling**. It is essential to read at home with your child often and we will provide a list of spelling words at the beginning of each half term, which the pupils can revise and practise often.

A menu of activities for the half term will be provided on the first Friday of each half term and the pupils can complete the work in their own time.

Submitting the work:

Some have noted that they would like the homework to be completed in a workbook so we're happy to receive it in a book, if that is easier for you. If you would like to do that, we're kindly asking for the work to be submitted to your child's teacher on a Monday or a Tuesday please. We will return any books and replace any reading books we receive by the following Friday.

The same system will remain in place for submitting your child's work electronically:

Nursery to year 4:

We will still receive the work through Seesaw.

Years 5 and 6:

E-mail through HWB.

*Although some of you noted that having different platforms to submit the work is confusing, the reason we've decided to ask year 5 and 6 pupils to e-mail their work to the teacher through Hwb is to encourage their independence and to prepare them for secondary school.

The homework menu and the spelling words will be uploaded to the class' website at the beginning of each half term. The link for each website is on the school website. Homework is set to reinforce learning and to develop independent learners. **We encourage all pupils to complete the tasks.** Thanks, once again, for your feedback and we hope this new system will cater for everyone's needs and make things easier for the pupils.

Diolch yn fawr / Thank you, Miss Passmore